



Canolbarth a Gorllewin Iachach



Bwriad yr adroddiad hwn yw darganfod pa wasanaethau gofal a chymorth sydd eu hangen ar bobl canolbarth a gorllewin Cymru yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Mae **Bwrdd Iechyd** Prifysgol Hywel Dda wedi **cymeradwyo** hyn.



Pam rydym yn gwneud hyn?



Gofynnwyd i bobl roi eu barn ar eu hiechyd a'u **llesiant**.



Rydym am gael gwasanaethau sy'n:



- trin salwch



- cadw pobl yn iach



- atal afiechyd neu'n atal salwch rhag gwaethygu



- rhoi'r help sydd ei angen arnoch yn gynnar



Rydym am gefnogi pobl i:



- helpu babanod a phlant i ddatblygu'n iach



- byw a gweithio'n iach



- tyfu'n hŷn yn iach



Mae nifer o bethau mewn bywyd yn effeithio ar iechyd a **llesiant** person.



Felly, rydym am weld **gweithwyr proffesiynol** o wahanol sefydliadau yn cyd-weithio.



Fel eu bod yn cefnogi pobl i fyw
bywydau iach a mwy annibynnol.



Rydym yn gwybod bod angen i ni wneud
hyn oherwydd ein bod yn wynebu nifer o
heriau:



- mwy o bobl ag anghenion
gwahanol, yn cynnwys mwy o
bobl hŷn



- staffio'r gwasanaethau cywir




- darparu gwasanaethau o hen
adeiladau



- gwneud y mwyaf o arian ac
adnoddau



Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?



Byddwn yn cyd-weithio â phobl a sefydliadau mewn 7 ardal:



1. Gogledd Ceredigion



2. De Ceredigion



3. Gogledd Sir Benfro



4. De Sir Benfro



5. Taf, Tywi, Teifi



6. Aman a Gwendraeth



7. Llanelli



Byddwch yn medru cysylltu ag un person
er mwyn cysylltu â'r holl wasanaethau
iechyd a gofal sydd eu hangen arnoch



Ysbytai



Ysbyty newydd ar gyfer de ardal Hywel Dda.

Yn yr ysbyty:



- bydd Adran Damweiniau ac Achosion Brys fwyaf yr ardal



- bydd triniaethau arbenigol a llawdriniaethau mawr i oedolion a phlant yn cael eu cynnal



Yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth bydd:



- Adran Damweiniau ac Achosion Brys



- gwelyau ar gyfer pobl sydd angen gofal gan feddygon



- rhai llawdriniaethau'n cael eu cynnal



- babanod yn cael eu geni yma gan fydwragedd a meddygon



- gofal canser (chemotherapy)



- gofal diwedd oes



Yn Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli bydd:



- gwasanaethau i oedolion
mewn argyfwng meddygol



- uned mân anafiadau a gwasanaethau
profion



- gwelyau ar gyfer pobl sydd angen gofal gan feddygon



- rhai llawdriniaethau bach



- gofal canser



- gofal diwedd oes



Yn Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Llwynhelig bydd:



- uned mân anafiadau



- gwelyau ar gyfer pobl sydd angen gofal gan nyrsys



- gofal canser



- gofal diwedd oes



Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans a byrddau iechyd eraill i wella gwasanaethau cludo.



Rydym am i'r Ambiwylans Awyr fod ar gael trwy'r dydd pob dydd, a meddygon a all ddod i'r fan a'r lle os ydych yn cael damwain ddifrifol.



Byddwn yn defnyddio **technoleg** er mwyn gwneud pethau'n gynt ac yn haws ac er mwyn gwirio problemau iechyd hir-dymor.




Cymryd rhan



Rydym am siarad â chynifer o bobl â phosib er mwyn gwella gwasanaethau iechyd a gofal.



Rydym am gynnwys pobl sy'n profi **rhwystrau** neu **allgáu**.



Rydym am gael unigolyn ym mhob ardal er mwyn sicrhau bod y trafodaethau hyn yn digwydd.



Mwy o wybodaeth

Ffôn: 01554 899 056

Gwefan: www.bihyweldda.wales.nhs.uk



Ystyr y geiriau



Cymeradwyo yw pan mae rhywun yn credu bod hyn yn beth da.



Rhwystro yw rhywbeth sy'n gwneud pethau'n anodd neu'n amhosib.



Allgáu yw pan mae rhywun yn cael ei adael allan yn bwrpasol.



Bwrdd Iechyd yw'r sefydliad sy'n cynllunio ac yn talu am wasanaethau iechyd yn yr ardal



Adnoddau yw'r pethau sydd gan sefydliad, fel arian a staff.



Gweithwyr proffesiynol yw'r bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd a cymorth. Fel meddyg, deintydd nyrs neu weithiwr gofal.



Technoleg yw pethau fel ffonau symudol, galwadau fideo, cyfrifiaduron a'r we.



Mae **llesiant** yn cynnwys bod yn hapus ac yn iach a hoffi bywyd a beth rydych yn gwneud. Mae'n cynnwys pob peth sy'n gwneud bywyd yn dda, fel:



- iechyd
- lle rydych yn byw
- teulu a ffrindiau
- pa mor ddiogel rydych yn teimlo
- a mynd allan

